

PECYN CREADIGOL ŴY, CHIPS a NAIN GAN Haf LLEWELYN



EIN NODDWR

Mae Wŷ, Chips a Nain wedi'i ysgrifennu gan y bardd a'r cerddor Gwyneth Glyn.

Cafodd Gwyneth ei hysbrydoli gan breswylwyr yng nghanolfan gofal dementia Bryn Seiont Newydd yng Nghaernarfon, ac yn briodol, mae'r daith yn cael ei noddi gan Barc Pendine sy'n berchen ar y ganolfan.

Diolch yn fawr iawn i **Parc Pendine** am eu cefnogaeth.

Am rhagor o wybodaeth am y cwmni: www.pendinepark.com

CYFLWYNIAD



Mae'r ddrama hyfryd hon wedi ei seilio ar berthynas y bachgen, Guto gyda'i nain. Ceir gip ar berthynas o safbwynt y ddau gymeriad, a gwelir sut y mae aelodau hŷn ein teuluoedd yn rhan mor ganolog ym mywydau plant, a sut mae'r plant yn eu tro hefyd yn fodd o gyfoethogi bywydau y rhai hŷn.

Mae'r ddrama yn rhoi cyfle gwych i drafod pynciau o bwys gyda'r plant, ac ar yr un pryd ddatblygu sgiliau canolog megis:

- **TRAFOD SAFBWYNTIAU ERAILL**
- **CYFLEU BARN A GWRANDO AR ERAILL**
- **ENNYN PARCH AT GARFANNAU AMRYWIOL O FEWN EIN CYMDEITHAS**
- **DANGOS EMPATHI A CHYDYMDEIMLAD**

Bydd y gweithgareddau a restrir o fewn y pecyn yn fodd o ddatblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu'r plant, ac mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio i ateb gofynion y rhaglen astudio llythrennedd gyfredol.

Mae'r gweithgareddau wedi eu rhannu o ran her:

- ★ **GWEITHGAREDD SYLFAENOL**
- ★★ **GWEITHGAREDD GYDA PHETH HERIAU**
- ★★★ **GWEITHGAREDD HERIOL YN CYNNWYS SYNIADAU A GWAITH TRAFOD PELLACH.**



1 DYWEDIADAU NAIN

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Tynnu sylw'r disgyblion at y ffordd y mae Nain yn siarad, a'r dywediadau sydd ganddi.

Guto: Be... ydi tymbyl-draiyr yn llosgi pres?
Nain: Ffor' o siarad, te

Beth ydi ystyr rhai ohonyn nhw a beth yw'r tarddiad?

Oes dywediadau arbennig gan eich perthnasau chi?

Gofyn:

- Pa air neu ddywediad sy'n nodweddu sgwrs eich nain/hen nain/daid/modryb/dewyrth? Petae chi'n clywed y gair yma, yna byddech yn gwybod yn syth fod eich nain yn y tŷ e.e. bobol annwl, iesgob mawr, moch bach a chlustiau mawr, gwneud dryga'.
- Oes gan eich nain/taid enw arbennig arnoch chi? e.e. nhgariad i, nghwas aur i, chwcs, honey, nenas, dyn bach, blodyn..

Meddylwch beth fyddai nain/taid/perthynas hŷn yn ei ddweud:

- Petae nhw yn falch o'ch gweld.
- Petae chi'n gwrthod gwranddo.
- Petae nhw'n sôn am rhywbeth/rhywun annifyr.
- Petae nhw'n sôn am rhywbeth/rhywun wrth eu bodd.
- Petae nhw angen eich help i wneud rhywbeth.

GWEITHGAREDD

Cynllunio sgwrs rhwng plentyn a'i nain/taid.

Dechrau ar lafar, ac yna datblygu'r sgwrs ar ffurf deialog neu swigod siarad.

RHAID O DDYWEDIADAU NAIN

- llosgi prês
- rhoi hand i mi
- fel tasat ti'n fyw
- cyboli
- iesgob
- ma' isho gras
- llond dy fol
- sidêt
- jolpan wirion
- hambygio
- dos o dan draed
- colli gafel
- reit handi
- bob un wan jac
- ffordd o siarad





2 EW MAE HI'N DYWYDD MAWR!

Ar ddechrau'r ddrama mae Nain a Guto yn hel y dillad am fod yna 'wynt nerthol yn rhuthro'.

Trafodwch a chasglwch ddywediadau a cherddi am y tywydd.

MORUS Y GWYNT AC IFAN Y GLAW
CHWYTHODD FY NGHAP I GANOL Y BAW!

'PWSI MERI MEW, LLE GOLLEST TI DY FLEW?'
'WRTH GARIO TÂN I MODRYB SIAN,
TRWY'R EIRA MAWR A'R RHEW.'

BWRW GLAW YN SOBOR IAWN WEL DYNA B'NAWN
ANGHYNES, MOCHEL DAN YR
AMBAREL A CHERDDED FEL BRENHINES,
HOLI HWN A HOLI'R LLALL A HOLI SION DWY GEINIÖG,
PWY 'DI HON A'R AMBAREL,
WEL DYDI'N GRAND GYNDDEIRIÖG!

(Gweler Am y Tywydd, Twm Elias, Gwasg Carreg Gwalch)

GWEITHGAREDD

Llunio holiadur ar gyfer y gymuned leol i gasglu dywediadau am y tywydd.

- Bydd angen meddwl am gwestiynau amrywiol fydd yn fodd o gael yr amrywiaeth mwyaf o ran atebion.
- Cofiwch chwilio am ddywediadau sy'n perthyn yn arbennig i'ch ardal chi.
- Gellir ymchwilio i sut mae rhai papurau newydd yn gor-ddweud gan fygwth tywydd mawr.
- Creu penawdau papur newydd yn y 'steil' hwn e.e. Swatiwch! Lluwchfeydd marwol ar y ffordd!

Gellir ymchwilio i ddigwyddiadau a thrychinebau oherwydd tywydd eithriadol e.e. llifogydd Awst 2017 yn Bangladesh.

Trafod hinsawdd yn newid a chynhesu byd eang, a sut mae hynny yn effeithio ar rhai gwledydd yn fwy nac eraill. Trafod ein dyletswydd ni o ran gofalu am ein daear - oes angen i ni weithredu? Pam? Edrych ar safle gwe sy'n dangos ardaloedd llifogydd yng Nghymru, trafod beth fedr oblygiadau hyn fod i ni yma yng Nghymru.

(Mae mapiau llifogydd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru)



3 Tŷ NI A Tŷ CHI

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Mae Nain yn y ddrama yn rhoi'r cyfnasau i sychu yn y cwpwrdd sychu.

Trafod tŷ nain neu dŷ perthynas oedrannus:

- Pa enwau sy'n cael ei roi ar gypyrddau ac ystafelloedd?
- Beth am eich tŷ chi? Ydyn nhw run fath a tŷ nain?
- Oes adeiladau tu allan? Beth ydi enwau'r rhain?
- Oes ffermydd o fewn profiad y plentyn, os felly, pa enwau sydd ar yr adeiladau allanol?
- Oes yna ystafelloedd at bwrpas arbennig mewn tai fferm e.e. bwtri (buttery), deri (dairy)? Ydyn nhw'n cael yr un defnydd heddiw?
- Trafod tai ddoe a heddiw. Pa ystafelloedd oedd mewn hen dai? Pa ystafelloedd sydd yn gyffredin yn ein tai modern?

(Gweler hefyd: http://www.bbc.co.uk/cymru/cymraeg/safle/tafodiaith/tudalen/tafodiaith_gogleddddwyrain.shtml)

- cwpwr' sychu
- cwpwrdd erio
- cwpwr' dŵr poeth
- landin'
- ben staer/grisia'
- twll dan staer/grisia'
- sbensh
- lownj/ lolfa
- parlwr/ stafell fyw
- cegin
- cegin gefn
- back kitchen
- cefn bach
- atig
- garat
- stafell haul
- shed

GWEITHGAREDD

Trafodwch efo ffrind beth yw enwau'r ystafelloedd yn eich tŷ chi. Beth am gypyrddau?

Oes ganddoch chi enw doniol neu anghyffredin ar ystafell neu gwpwrdd?

Defnydio'r cardiau didol - cyfateb y cardiau. (Gellir newid y rhain fel bo'r angen)

Creu cynllun o dŷ, neu fferm a'i labelu gyda'r enwau gwreiddiol.

Gellir rhoi esboniad o beth yw pwrpas bob rhan o'r adeilad e.e.

Cwpwrdd dŵr poeth - dyma lle mae'r tanc dŵr poeth, ac oherwydd hynny, mae'n lle cynnes iawn. Dyma lle byddwn yn rhoi dillad i sychu neu i grasu.

TWLL DAN GRISIA'	Cwprdd cul yn y gofod o dan y grisiau i gadw pethau.
CEGIN GEFN	Ystafell i gadw cotiau, welis a sgidiau. Weithiau bydd y peiriant golchi a'r peiriant sychu yma hefyd.
ATIG/ GARAT	Ystafell ar ben uchaf y tŷ, weithiau mae wedi ei newid yn stafell, ond weithiau mae drws yn y nenfwd i gyrraedd yma. Weithiau mae pryfaid cop yma!
YSTAFELL HAUL	Ystafell gyda llawer o ffenestri ynddi. Weithiau mae'r to wedi ei wneud o ddeunydd tryloyw hefyd. Mae llawer o olau ynddi, ac mae planhigion yn tyfu'n dda yma.
LOLFA	Lle i ymlacio. Dyma lle bydd y teledu fel arfer, a sofffa braf neu gadair esmwyth. Weithiau bydd lle tân yma.
CEGIN	Yn y gegin mae'r bwyd yn cael ei baratoi. Mae sinc yma i olchi llestri a popty i goginio. Fel arfer byddwn yn bwyta wrth y bwrdd yn y gegin.



4 TY'D I HELPŲ

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Trwy'r ddrama mae Guto yn helpu ei nain gyda'r dillad, wrth eu rhoi ar y lein ac yna eu tynnu.

Mae'r lein ddillad yn ganolog i'r digwyddiadau. Mae'r lein ddillad yn amlygu llawer o nodweddion cymeriad Nain:

- Meddwl trefnus Nain ar ddechrau'r ddrama - mae'r dillad yn daclus ar y lein, mae hi'n cofio cadw'r pegiau, ac mae Guto yn ei helpu i blygu'r dillad
- Mae'r dillad yn atgoffa Nain o amseroedd a digwyddiadau eraill
- Pan mae Nain yn rhoi dillad budr yn ôl ar y lein, yna rydan ni'n dechrau deall nad ydi Nain yn cofio pethau

Mae rhoi dillad ar y lein yn gallu bod yn weithred braf. Beth am ganolbwyntio ar ddefodau tebyg, neu weithgareddau tebyg mae'r plant yn ei wneud yn nhŷ perthynas hŷn.

Gofynnwch i'r plant ganolbwyntio ar y synhwyrau sy'n cael eu deffro -

Wrth roi dillad ar y lein:

- Gwynder y dillad, disgleirdeb dillad gwynion yn yr haul
- Lliwiau gwyn yn erbyn lliw'r awyr
- Siap y dillad a'r cysgodion sy'n cael eu creu
- Lliwiau'n dawnsio - fel pobl yn symud
- Arogl y powdwr golchi mae Nain yn ei ddefnyddio
- Arogl yr haul ar y dillad
- Sŵn y cynfasau yn clecian yn y gwynt
- Os yw'n ddiwrnod braf - sŵn yr adar/ awyrenau'n sgialu/ gwenyn yn suo/ peiriannau'n grwnian

RHAI SWYDDI SY'N RHAID EU GWNEUD YN NHŷ TAID A NAIN

- Mynd a'r ci am dro
- Gosod a chlirio'r bwrdd bwyd
- Dangos i Nain sut i decstio
- Dangos i Taid sut i gael canlyniadau chwaraeon ar ei i-pad
- Newid y gwely
- Helpu i chwynu'r ardd/dyfrio'r ardd
- Clirio'r cwpwrdd bwyd

GWEITHGAREDD

Ysgrifennwch ddyddiadur (enghraifft ar y dudalen nesaf) am fod yn nhŷ Nain a Taid. Soniwch am y swyddi fyddwch chi'n eu gwneud i helpu.

Cofiwch sôn am y dywediadau fydd eich nain neu daid yn eu defnyddio. Ydyn nhw'n canmol? Ydyn nhw fel Nain Guto weithiau - yn dweud y drefn am nad ydach chi'n gwneud y job yn iawn? Beth am siarad Cymraeg? Mae Nain Guto yn ei gywiro pan mae'n sôn am 'bite gan snake yn gallu bod yn poisonous'. Fydd hyn yn digwydd i chi?

Cofiwch sôn am eich synhwyrau - ydi'n well ganddoch chi helpu Taid a Nain na helpu adre? Pam?

TIPS YSGRIFENNU DYDDIADUR:

- Ysgrifennu yn y person cyntaf e.e. mi wnes i, wnes i ddim,
- Treiglo ar ôl fy e.e. fy nhaid, fy mrawd
- Sôn am deimladau e.e. Dwi wedi cael llond bod ar hyn
- Edrych yn ôl ar ddigwyddiad, a sôn am rhywbeth sydd am ddigwydd.
- Does dim rhaid bod yn ffurfiol mewn dyddiadur - cei ddefnyddio geiriau llafar e.e. OMB dwi wedi laru ar hyn, 'de.
- Does dim rhaid ysgrifennu mewn brawddegau llawn chwaith, cei ysgrifennu brawddegau byr e.e. Cerdded i tŷ Nain. Glaw.

ENGRAIFFT: DYDDIADUR

Dydd Sadwrn

Bore 'ma ês i i tŷ Taid, i helpu blannu tatws. Mam waneth fynnu mod i'n mynd. Deud oedd hi nad ydw i byth yn helpu Taid efo dim byd. Dydi hynny ddim yn wir, ac mae deud hynny yn anheg iawn. Hollol anheg. Fi sydd yn gorfod mynd draw i tŷ Taid bob tro mae'r teli'n mynd yn nyts. Taid ydi'r bai fel arfer. Does yna ddim byd yn bod ar y teli. Taid sy'n pwyso'r botyma' anghywir, ac wedyn does na ddim byd i'w weld ar ys grŵn ond eira. Chwara' teg - dwi yn cael punten gan Taid am drwsio'r teli - wel dwi ddim yn trwsio dim byd a deud y gwir. Jest pwyso'r botwm iawn. Dwi'n trio dangos i Taid pa fotwm i'w bwyso - ond dydio ddim angen gwybod, medda fo. 'I be a i draffarth a titha'n gallu g'neud i mi de ngwas i.' Medda fo. Dwi'n ama weithiau ei fod o'n sgrwtshan y teli, jest i gael cwmni.

Be' bynnag. Plannu tatws oedd job heddiw.

Taid oedd yn palu ac agor rhych, finna wedyn yn plygu i roi'r tatws i mewn. Fedar Taid ddim plygu, achos mae o'n rhy hen. 'Rhen grycymala 'ma', mae o'n ei alw fo, ond jest hen ydi o. Felly fi sy'n plygu. Mi roedd ogla'r tail yn mynd fyny fy nhrwyn i, hen ogla sur. A mi roedd y pridd yn mynd dan fy ngwinedd i, a hen deimlad llaith annifyr iddo fo. Afiach. Erbyn amser cinio ro'n i wedi laru go iawn. Iesgob mae garddio yn ddilas. Boring.

Ond wedyn, dyma Taid yn gofyn - 'Neith hi chips dwa'?' ac yn gwthio ffeifar i fy llaw i. Mi roedd Mam wedi gyrru lobsgows i ni gael i ginio, ond chwara' teg i Taid, roeddann ni'n haeddu chips ar ôl yr holl waith yna.

Felly ffwrdd a fi i'r shop chips. Gathon ni chips bach bob un a sgodyn i rannu. OMB dwi'n licio ogla chips mewn papur de, mae o'n rhw ogla cynnes, braf. Lyfli. Iesgob mi nathon ni fwynhau'r chips - eistedd ar y fainc yn yr ardd i'w byta nhw. Mi roedd yna robin goch bach yn dod reit at droed Taid, a Taid yn taflu chipsen iddo fo. 'Mae o'n dod bob dydd i ngweld i sti.' medda Taid, ' a mae o'n ddof yli, does gynno fo ddim math o ofn sti, y peth bach clws, a weithia de, mi ddaw i eistedd ar dop y rhaw, fel tasa fo eisiau gwrs fach efo fi, ei lygad bach o'n syllu.'

Mi aeth Taid yn ddistaw wedyn.

'Fydda i'n meddwl weithia sti ma...' nath o stopio am funud, ac edrych arna i'n od,' Fydda i'n meddwl weithia ma' dy Nain ydi'r 'deryn bach na sti - wedi dod nôl i weld os dwi'n iawn.'

Dwi'n ama weithia' fod Taid yn dechra mynd yn rhyfadd. Ond dwi ddim am ddeud wrth Mam chwaith.

Dwi wedi penderfynnu mynd draw i tŷ Taid fory hefyd. Ga' i lonydd i wyllo l'm a Celebrity yno, heb i Mam arthio mod i'n wastio amser yn gwyllo sgrwtsh ar y teli.



5 CERDD RESTR

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Rhestru nodweddion sy'n perthyn i deidiau a neiniau/ hen deidiau a neiniau. e.e.
'Mae gan Taid shed, ble bydd o'n mynd i drwsio petha, ac yno mae yna
'Os nad ydi Nain yn y tŷ yna mae'n debyg ei bod hi yn y tŷ gwydr, ac yno mae yna....

Annog y plant i feddwl am nodweddion eraill sy'n perthyn i'w perthnasau hŷn.

Gellir didoli'r nodweddion i mewn i dabl:

BETH SYDD I'W WELD	BETH SYDD I'W GLYWED	BETH SYDD I'W FLASU/ AROGLI	BETH SYDD I'W DEIMLO	TEIMLADAU	HANIAETHOL (PETHAU NA FEDRWCH EU CYFFWRDD)
Lluniau wyrion a wyresau a phobl yn priodi Lluniau babanod	Wil Tân yn canu Radio Cymru	Ogla hyacinth	Soffa feddal	Cynhesrwydd a bodlonrwydd	
Clustog wedi grosio	Tap yn dripain	Blâs cacen gri	Llaw gras Taid		
Ornaments	Dywediadau - 'raur, blodyn, nghariad gwyn i, brenshach.				

GWEITHGAREDD

Creu cerdd restr (enghraifft ar y dudalen nesaf).

Dychmygwch eich bod yn tynnu cynnwys drôr Taid allan ar y bwrdd. Beth sydd yno?

Rhaid i chi feddwl am bethau sy'n ymwneud â'r synhwyrâu fel yn y tabl uchod e.e.

Gweld
Clywed
Blâs
Arogl
Rhywbeth na fedri di ei ddal yn dy law

Hoelion i drwsio'r cwt cwningen,
Chwiban cân arbennig, neu un o ddywediadadau Taid
Mint imperials
Stwff llau olew o ddwylo - swarfega,
Atgofion am amser pan oedd Taid yn gôl geidwad.

Ewch ati i greu cerdd restr, gallwch restru'r pethau sydd i'w canfod mewn e.e. poced, basged, car, neu fan.

Ym mag llaw Nain mae:
Arogl teisen yn syth o'r popty,
Pellen o wlan yn fy lapio'n glyd
Rhestr siopa - smartis a moron,
Amser maith yn ôl rhyw stori hud.
Wel, neno'r tad, hidia befo ngwas i,
Geiriau cynnes, hances a gwên,
Ticedi raffl, beiro a sbectol,
Llun o Taid cyn iddo fynd yn hen.



CYFARWYDDIADAU GWNEUD CWCH FACH

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Mae Nain yn gwneud cwch i Guto allan o frwyn. Pa sgiliau rydym ni wedi eu cael gan ein perthnasau hŷn?

Beth mae Taid/ Nain wedi ddysgu i chi e.e.

- Crosio/gwau/gwnio
- Dweud rhigymau/ clymau tafod
- Gwaith coed
- Sgiliau pêl droed/ chwarae darts/snwcer
- Gwneud doliau peg

Mae Nain yn rhoi cyfarwyddiadau i Guto ar sut i wneud cwch efo'r gwch. Mae'n dangos ac yn esbonio'r camau. Wth roi cyfarwyddiadau mae'n rhaid bod yn drefnus a chlir.

Wrth rhoi cyfarwyddiadau rhaid esbonio yn syml. Byddwch angen rhoi rhestr o'r pethau sydd eu hangen. Yna rhaid rhoi camau gweithredu. Dyma rai geiriau y gallwn ni'n eu defnyddio:

- Y trefnolion - yn gyntaf, ail, trydydd
- Geiriau i symud y gweithgaredd ymlaen - yna, wedyn, ar ôl hynny, mi fedri di, ac yn olaf..
- Berfau gorchmynnol - trowch, rhowch, gwasgwch

GWEITHGAREDD

Rhoi cyfarwyddiadau sut i wneud rhywbeth syml.

Byddwch yn drefnus.

Trefnwch eich meddyliau ar lafar i ddechrau, efallai yr hoffech i rhywun wneud fideo o'r cyfarwyddiadau. Gwrandwch yn ôl - ydy eich cyfarwyddiadau yn eglur ac yn glir?

Gellwch fynd ymlaen wedyn i ysgrifennu'r cyfarwyddiadau ac i greu lluniau i gyd fynd â'ch cyfarwyddiadau.

ENGRAIFFT: SUT I WNEUD CWCH BACH FRWYN



Pan fyddwn i'n mynd i bysgota efo fy nhaid, fe ddysgodd imi sut i wneud cwch bach allan o'r brwyn oedd yn tyfu ar y dorlan.

Byddwch angen:

1 frwynen werdd tua 35 cm o hŷd. (Mae brwyn brown yn rhy sych a bydd yn torri wrth ei phlygu)

Dull:

1. Yn gyntaf, pinsiwch tamaid tua 3 cm o ben y frwynen, a'i blygu.
2. Yna weindiwch weddill y frwynen o amgylch y darn cyntaf. Bydd yn edrych ychydig fel mat bach hirgrwn. Hwn yw dec eich cwch.
3. Pan fydd ganddoch tua 10 cm o frwynen ar ôl, gwthiwch y frwynen drwy ganol y 'dec'.
4. Tynnwch y darn hwn i fyny trwy ganol y 'dec' - dyma'r mast.
5. Rhowch eich cwch bach frwyn ar y dŵr.



PORTREADAU NEU DDISGRIFIADAU

NAIN NEIS, NEIS! SYNIADAU CYCHWYNNOL

Yn y ddrama Wŷ, Chips a Nain, mae portread cynnes a realistig iawn o nain arbennig. Nid yw Nain yn gymeriad ‘neis, neis’. Mae hi’n barod iawn i ddweud y drefn. Ai Nain felly sydd gennych chi?

Mewn llawer o ffyrdd mae’r nain arbennig hon yn nodweddiadol o nifer o ‘neiniau a theidiau’ tebyg. Ond mae yma hefyd ddisgrifiadau o berson unigryw.

Rhai felly yw’r bobl sy’n ein bywydau ni:

- Weithiau yn nodweddiadol o bobl o’r un genhedlaeth
- Ond hefyd yn dangos nodweddion hollol unigryw

Pan fyddwn yn ysgrifennu portreadau, neu’n cynnwys disgrifiadau o bobl mewn stori neu naratif, rhaid i ni geisio cynnwys y ddwy elfen hon.

Ewch yn ôl i’r gweithgaredd cyntaf i edrych ar rai o ddywediadau Nain.

Pa nodweddion eraill sy’n gwneud y Nain hon yn arbennig, neu’n unigryw?

- Nid yw Nain eisiau i Guto siglo ar ei gadair, felly mae’n creu stori am hogyn bach o Lanbabo dorrodd ei gefn
- Pethau mae Guto yn ei wneud yn ei hatgoffa am bethau eraill - mae Guto yn siglo yn ei hatgoffa am y swingboats yn y ffair
- Y wyddor Semaffôr
- Celwyddau Nain - mae’r jingl ar y fan hufen ia yn dweud fod yr hufen ia wedi gorffen
- Taro traed i ddychryn y nadroedd

GWEITHGAREDD

Ysgrifennu portread neu ddisgrifiad o gymeriad (enghraifft ar y dudalen nesaf). Cofiwch am y nodweddion unigryw hynny sy’n arbennig i’ch cymeriad. Ceisiwch ddangos y nodweddion hynny yn y ffordd mae’r cymeriad yn:

- Siarad
- Symud
- Ymateb
- Gwisgo

Er engraifft:

Un unig oedd Dora, yn byw ar ben ei hun heb ddim ond Mot y ci yn gwmni. O fe hoffai petai rhywun yn aros i sgwrsio gyda hi.

‘Ddaw yna neb heibio eto heddiw sti Mot,’ eisteddai Dora ar y fainc y tu allan i’r tŷ, yn gwyllo’r mynd a’r dod, gan fwytho clustiau’r hen gi defaid.

‘Diwrnod braf..’ ceisiodd, ond dal i gerdded heibio wnai pawb.

ENGRAIFFT: YSGRIFENNU PORTREAD NEU DDISGRIFIAD O GYMERIAD

DORA

Gwagiodd y bag plastig fu'n dal y dorth, nes roedd y briwsion i gyd yn disgyn ar y stepan drws. Fe ddoi'r adar toc i bigo. Yna aeth a'r bag yn ei ôl i'r gegin a'i olchi'n lân cyn ei hongian uwch ben y grât i sychu. Mi wnai'r bag yn iawn i fynd a sgons i Mrs Huws.

'Ty'd rhen foi,' galwodd ar Mot, a siglodd hwnnw ei gynffon ufudd. Allan wedyn i ollwng yr ieir, a hel wyau. Dim ond naw o'r gloch oedd hi byth.

Gwthiodd ei thraed i'r welingtyns blodeuog, a rhoi chwarddiad fach ag ysgwyd ei phen. Roedd hi'n edrych yn wirion, fe wyddai hynny'n iawn, yn ei welingtyns newydd. Nid rhain fyddai hi wedi eu dewis - hen lol o welingtyns oed rhain. Rhai gwyrdd oedd ganddi hi fel arfer. Trodd ei thrwyn, a gwneud ceg gam.

Hoi ti toi, wyt ti Dora, yn dy welingtyns posh!

Roedd hi'n edrych yn wirion, ac yn teimlo'n wirion. Rêl Manon. Dyma'r union fath o welingtyns fyddai Manon yn eu gwisgo - sioe o welingtyns. Roedd hi'n haws gyrru parcel efo welingtyns crand yn anrheg penblwydd, na phicio heibio i'w gweld. Roedd Manon yn rhy brysur yn jolihotian i ddod heibio ei mam.

Paid a bod yn anniolchgar Dora

Mi ddylia hi ddiolch siwr, fod rhywun yn mynd i draffarth i anfon unrhywbeth i hen wraig grintachlyd fel hi. Yna sythodd ei hwyneb eto, rhaid iddi beidio a tynnu wynebau fel yna - beth petai'r gwynt yn troi? Fel yna fyddai ei hwyneb hi'n aros wedyn.

Eisteddodd ar y fainc yn y ffrynt yn gwylio pawb yn mynd heibio. Gorweddodd Mot wrth ei thraed - roedd o'n hoffi'r welingtyns blodeuog, mae'n rhaid.

'Diwrnod braf!' galwodd Dora ar un o'r mamau ifanc oedd yn brysio efo'r pram am yr ysgol, gwenodd honno arni a chwifio llaw. Ond wnaeth hi ddim aros am sgwrs chwaith.



MAE'R GWYNT YN TROI

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Yn raddol trwy'r ddrama rydym yn sylweddoli nad yw popeth yn disgyn i'w le ym meddwl Nain.

Fel mae'r ddrama yn datblygu mae Nain yn mynd yn fwy anghofus, ac yn fwy dryslyd.

Sut mae'r dramodydd yn dechrau dangos nad yw popeth yr hyn y dylai fod?
Trafodwch y cliwiau hyn. Gellwch eu didol fel hyn:

PETHAU MAE NAIN YN EI DDWEUD	PETHAU MAE NAIN YN EI DDWEUD
ŴY, CHIPS A NAIN.	GOSOD LLE I DRI WRTH Y BWRDD BWYD.

GWEITHGAREDD

Mae'r dramodydd yn defnyddio delweddau trwy'r ddrama. Yn aml bydd un ddelwedd yn sefyll dros rywbeth arall.

Trafodwch:

- Beth all y lein ddillad fod yn ddelwedd ohono?
- Yn aml mae sôn fod y gwynt yn codi - fod terfysg ar ddod. Oes arwyddocâd i hyn?
- Y neidr ar lan y môr - oes arwyddocâd arall?

Fedrwch chi ddylunio neu greu darlun fyddai'n defnyddio lein ddillad neu ddelwedd debyg i gyfleu rhywbeth arall? Dyma rai syniadau:

- Llwybr neu ffordd i gynrhychioli bywyd person - cofiwch roi arwyddion ffordd/croesffordd/pentrefi/trefi yn eich darlun
- Mordaith
- Reid ffair
- Tymhorau



9 DECHRAU A DIWEDD

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Trafodwch sut mae'r cynhyrchiad yn dechrau.

Sut mae'r dramodydd yn tynnu'r gynulleidfa i mewn ac yn eu cynnwys yn y digwyddiadau.

Mae Guto yn chwilio am ei Nain, ac yn ein holi os ydym wedi ei gweld.

Sut rydym yn teimlo ar ddechrau'r ddrama?

CYFFROUS	DIBRYDER	BODLON	DISGWYLGAR	WEDI YMLACIO	HAPUS EIN BYD
----------	----------	--------	------------	--------------	---------------

Nawr trafodwch sut mae'r ddrama yn gorffen.

Beth yw'n teimladau ar ddiwedd y ddrama? Pa deimladau neu feddyliau sydd yn flaenllaw yn ein meddyliau?

TRISTWCH	HAPUSRWYDD	BODLONRWYDD	DEALLTWRIAETH	PERTHNASU	CYDYMDEIMLAD	EMPATHI
----------	------------	-------------	---------------	-----------	--------------	---------

COLLI NAIN

Mae Guto yn dweud:

O'n i'n meddwl
bo' fi 'di'ch colli
chi Nain?

Beth ydi arwyddocâd yr olygfa olaf un a'r geiriau hyn?

Ydi Guto wedi 'colli' Nain. Ydi Nain wedi marw? Neu efallai nad ydi Nain erbyn hyn, oherwydd dryswch meddwl, yn gallu bod fel Nain, ac mai dyna pam mae o wedi 'colli' Nain.

Yn aml, pan fyddwn yn colli rhywun, pan fydd rhywun yn marw, fe fyddwn fel Guto yn yr olygfa olaf un, yn dal i gofio am y person hwnnw/honno.

Tra mae ein hatgofion yn dal gennym yna ni fydd y person sydd wedi marw wedi ei 'golli' byth.

Mae Nain yn ymateb trwy ddweud:

Be ti'n rwdlan?

GWEITHGAREDD

Creu darn creadigol mewn unrhyw gyfrwng, am rhywun sydd yn annwyl gennych.

Beth yw eich atgofion chi o'r person hwnnw?

Cofiwch mae llawer o hiwmor yn Wŷ, Chips a Nain. Yn aml byddwn yn cofio am y pethau doniol fydd ein hanwyliaid wedi eu dweud neu eu gnweud.

Gweler hefyd - Y Goeden Gofio - Britta Teckentrup



10 LLWYFANU

SYNIADAU CYCHWYNNOL

Trafodwch gynllun y llwyfan a'r defnydd a wneir o'r lein ddillad.

Oes arwyddocâd i'r lliwiau tawel ar y dillad? Beth am y falŵn oren ar y diwedd?

Sut effaith mae'r ffilm a'r synau cefndirol yn ei greu?

Trafodwch y lleoliadau:

TŶ NAIN	GLAN Y MÔR	YN Y CARTREF HENOED	AR Y Ffordd I WERDDON
---------	------------	---------------------	-----------------------

Sut mae'r cymeriadau yn newid ym mhob lleoliad?

Trafodwch y delweddau sy'n cael eu defnyddio trwy'r ddrama -

- Y gwahanol gychod
- Semaffôr
- Y bwyd
- Y dillad
- Anifeiliaid - y jiraff, y neidr
- Y tywydd

GWEITHGAREDD

Creu animeiddiad cefndirol i stori o'ch dewis chi.

Dewiswch rai delweddau cryf fel sydd yn Wŷ, Chips a Nain. Bydd y delweddau yn cael eu defnyddio dro ar ôl tro.

Gellir defnyddio delweddau a synau i gyfleu teimladau arbennig.



Enghraifft o waith animeiddio 'stop motion' yn Wŷ, Chips a Nain.
<https://youtu.be/ubRgvd2fKR8>

Yn y ddrama hon trafodir nifer o deimladau:

- Cariad
- Gofal
- Ymddiriedaeth
- Dryswch
- Dychryn

Dewiswch ddelweddau a synau i gynrychioli teimladau yn eich animeiddiad chi.



CREU CENHEDLAETH DEMENTIA GYFEILLGAR

Gyda thros **850,000** o bobl gyda dementia yn y Deyrnas Unedig, mae bron i draean y bobl ifanc yn adnabod rhywun sy'n byw efo dementia.

Er mwyn cefnogi pobl ifanc i ddeall y cyflwr a sut mae'n effeithio ar fywydau pawb, mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi datblygu cyfres o adnoddau addysgol i ddisgyblion Cyfnodau Allweddol 1 - 4.

Edrychir mewn ffurf apelgar ar bwysigrwydd rôl gofalwyr, materion moesol a'r heriau a gysylltir â phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r holl adnoddau wedi'u datblygu'n bwrpasol gan weithwyr addysgu proffesiynol, i gyfrannu tuag at agweddau allweddol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r Fagloriaeth Gymreig.

Ewch i www.alzheimers.org.uk/youngpeople




CRIW CREADIGOL ŴY, CHIPS a NAIN

Actorion
Sgript
Cyfarwyddwr
Cynllunydd Set
Cynllunydd Gwisgoedd
Cynllunydd Goleuo
Coreograffi
Cyfansoddwr
Cynllunydd Delweddau
Rheolwr Cynhyrchu
Dirprwy Rheolwr Llwyfan
Technegydd Sain
Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol
Technegydd Goleuo
Cynorthwydd Dylunio Set
Ffotograffiaeth
Artist Gweledol
Ymgynghorydd Addysg
Ymgynghorydd Adnoddau Dysgwyr

Gwenno Hodgkins ac Iwan Garmon
Gwyneth Glyn
Iola Ynyr
Gwyn Eiddior
Lois Prys
Joe Fletcher
Kim Noble
Osian Gwynedd
Eilir Pierce
Lewis Williams
Caryl McQuilling
Dan Jones
Simon Thomas
Tom Ayres
Olivia Racionzer
Kristina Banholzer
Mirain Fflur
Haf Llewelyn
Lowri Mair Jones



Cyfnod datblygu Ŵy, Chips a Nain
- Gaeaf 2016
<https://youtu.be/DpMU0DhK4xA>



Fideo hyrwyddo Ŵy, Chips a Nain
<https://youtu.be/LRsyx-lzkkk>

post@franwen.com



01248 715 048



www.franwen.com



@cwmnifranwen



Porthaethwy,
Ynys Môn,
Cymru
LL59 5HS

